**PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**10 Chwefror 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Dr R Heath Davies, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

[Ymunodd Mrs S Hoss â'r cyfarfod adeg ystyried yr Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb (*gweler Cofnod 7*).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.50am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Dachwedd 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Dachwedd 2020.

**4. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod**
Bu'r Aelodau yn ystyried adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar y 26ain o Dachwedd 2020.

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar y 26ain o Dachwedd 2020.

**5. Strategaeth Archwilio a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a'r Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaeth Archwilio Mewnol**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jonathan Maddock o'r TIAA, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Gan gymryd yn gyntaf y Strategaeth Archwilio a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol, eglurodd bod y Cynllun ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar asesiadau risg a wnaed ar draws y cleientiaid llywodraeth leol ac ar asesiad risg archwilio a ddiweddarwyd oedd yn cydweddu â gwaith yr Awdurdod, i sicrhau bod y sylw a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yn canolbwyntio ar y risgiau archwilio allweddol. O ystyried effaith barhaus y pandemig COVID-19, y themâu allweddol a

ddaeth i'r amlwg oedd cyllid, incwm masnachol, seiberddiogelwch a rheoli a chyflawni prosiectau.

Roedd Cynllun Blynyddol 2021/22 wedi'i gymryd o'r Strategaeth Archwilio dros tair blynedd oedd yn nodi'r gwaith oedd i'w wneud dros y cyfnod 2021 - 2024. Y meysydd i'w hadolygu ym mloc 1 (i'w wneud yn ystod chwarter 2) oedd rheoli risg - rheolaethau lliniaru; Strategaeth TGCh; a Chyflawni Gwaith Ystadau. Byddai Bloc 2, fyddai'n cael ei wneud yn ystod chwarter 4, yn ymdrin â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth; Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy; a Thaliadau Caffael a Chredydwyr. Hefyd cymerir camau dilynol o ran gweithredu blaenoriaeth 1 a 2 y cytunwyd arnynt o adroddiadau archwilio blaenorol.

Nodwyd nad oedd y Strategaeth na'r Cynllun yn ddigyfnewid ac y gellid gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg neu ar gais y Pwyllgor. Gwahoddwyd yr Aelodau i gyfrannu at gynnwys y cynlluniau yn y dyfodol.

Awgrymodd yr Aelodau y gallai meysydd i'w hystyried yn y dyfodol gynnwys asesu a yw gwaith yr Awdurdod yn unol â'r elfen 'Cynnwys' yn y Ffyrdd o Weithio a glustnodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd yr asesiadau mewn perthynas â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ddaw i rym fis Mawrth 2021.  O ran yr olaf, dywedodd y swyddogion bod gwahanol ddulliau o ymdrin â'r asesiadau yn cael eu treialu ar hyn o bryd cyn y cyhoeddir canllawiau pellach, ond y gallai ystyried y llif gwaith hwn fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

Yr ail ddogfen oedd gerbron y Pwyllgor oedd yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol 2020/21. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y materion llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol oedd yn dod i'r amlwg, a'r pandemig COVID-19 oedd y prif effaith. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cwblhau ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Serch hynny, dywedodd Mr Maddock bod y bloc cyntaf o waith archwilio wedi'i gwblhau erbyn hyn ac y byddai'n cyflwyno adroddiad i gyfarfod mis Mai. O ran y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod ar argymhellion blaenoriaeth 1 a glustnodwyd mewn adroddiadau archwilio blaenorol, dywedwyd bod yr argymhelliad ynghylch llyfrau log diogelwch tân a glustnodwyd fel rhan o'r adolygiad Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau erbyn hyn ac roedd y gwaith archwilio mewnol wedi cadarnhau bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

**NODWYD.**

6. **Llythyr Archwilio Blynyddol 2019-20 a Chrynodeb Archwilio Blynyddol 2020**

Dywedwyd bod Llythyr Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi manylion am ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio. Hefyd roedd Archwilio Cymru wedi cyflwyno Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020 oedd yn dangos y gwaith yr oedd wedi'i gwblhau ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd yn 2019.

O ran y Crynodeb Archwilio Blynyddol, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yr holl wybodaeth oedd ynddo yn berthnasol i waith yr Awdurdod, a gofynnodd a ellid fod wedi rhoi ffigurau mwy diweddar yn yr adran Ffeithiau Allweddol o'r ddogfen, gan gyfeirio at Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru fel y cymharydd perthnasol.

Cytunodd yr Aelodau, er eu bod wedi gweld nifer o'r adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn ddiddorol, y byddai adroddiad wedi'i deilwra wedi bod yn fwy perthnasol, ac y dylid gofyn i Archwilio Cymru newid unrhyw ystadegau anghywir. Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at archwilio i ba raddau yr oedd yr Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gynyddu cyfranogiad, a gofynnwyd a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran cynnwys rhanddeiliaid wrth benderfynu ar flaenoriaethau gwariant a chryfhau cydnerthedd.

Atebodd y swyddogion bod yr adroddiad drafft heb eto ddod i law, ond bod grŵp cynllun gweithredu mewnol ar ymgysylltu wedi'i greu oedd wedi cwblhau'r hunanasesiad a ddarparwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac roedd hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio blaenoriaethau'r Awdurdod. Y gobaith oedd cyflwyno'r gwaith hwn i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Hefyd nododd yr Aelodau bod Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn holi tybed beth oedd rhan yr Awdurdod yn ei ymwneud â'r Bwrdd hwn a'r camau ymlaen yr oedd yn ei wneud. Atebodd y Prif Weithredwr ei fod ar hyn o bryd yn Gadeirydd Bwrdd Sir Benfro ac yn cydnabod bod dod ag amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus ynghyd yn heriol. Credai bod cynnydd yn cael ei wneud, ond y byddai'n cymryd amser i'r Bwrdd gyflawni ei botensial. **NODWYD.**

7. **Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 9 mis hyd at fis Rhagfyr 2020**

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn nodi'r gyllideb refeniw net fanwl am y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2020 oedd yn dangos mai'r gwariant

gwirioneddol a’r gwariant ymrwymedig oedd £3,679k, sef £71k yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd.  Roedd y prif resymau dros yr amrywiant rhwng y gwariant gwirioneddol â’r gyllideb ar gyfer pob adran gwasanaeth wedi’u nodi yn yr adroddiad.  Roedd y £59k o danwariant yn y gyllideb Rheoli Datblygu i’w briodoli yn bennaf i’r cynnydd mewn incwm ffioedd. Fodd bynnag, roedd cyllidebau Hyrwyddo Dealltwriaeth a Hamdden a Rheoli'r Parc yn sylweddol uwch na’r gyllideb oherwydd llai o werthu nwyddau, llai o incwm mynediad i Ganolfannau’r Awdurdod, a llai o incwm o’r meysydd parcio. Nodwyd bod y Canolfannau wedi bod ar gau ers y toriad tân yn yr hydref a bod y staff ar ffyrlo yn llawn neu'n rhannol.

Roedd disgwyl i'r sefyllfa refeniw a ragwelir ar gyfer diwedd blwyddyn 2020/21 fod yn sefyllfa o adennill costau. Roedd gwariant ychwanegol a cholli incwm a gynhyrchir gan yr Awdurdod o ganlyniad i gyfyngiadau a chanllawiau COVID wedi'u lliniaru gan gymorth grant ychwanegol gan Lywodraethau Cymru a'r DU, ac felly yn lle gorfod tynnu £176k i lawr o’r gronfa wrth gefn a ddyrannwyd i gydbwyso'r gyllideb refeniw, byddai'r Awdurdod yn gallu ychwanegu £110k at y gronfa wrth gefn hon.

Roedd y rhaglen gyfalaf wedi cynyddu'n sylweddol o'r gyllideb wreiddiol i £3,117k oherwydd cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o dan eu cynllun grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, ac roedd manylion y prosiectau a ariannwyd wedi’u nodi yn yr adroddiad.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd bod disgwyl i'r Gronfa Wrth Gefn gyffredinol barhau ar £1,008k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd disgwyl i’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Derbyniadau Cyfalaf ostwng i ariannu prosiectau a gynlluniwyd yn flaenorol.

Roedd un Aelod yn poeni am lefelau’r stoc yn y Canolfannau, a dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y gwiriad stoc blynyddol yn cael ei gynnal ar y pryd, ond er bod disgwyl i’r dileu dyled stoc fod yn uwch na'r arfer, nid oedd disgwyl i hyn fod yn sylweddol.

Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu am y cyfeiriad at arbedion cyflog yn y gyllideb Rheoli Datblygu gan gyfrannu at danwariant, o ystyried bod yr adran dan bwysau. Atebodd y swyddogion bod swyddog wedi bod ar absenoldeb salwch tymor hir, ond bod staff yr adran wedi cael cymorth drwy gyflogi ymgynghorydd fel yr adroddwyd yn flaenorol i’r Awdurdod. Roedd un Aelod o’r farn mai gwell fyddai cyflogi swyddogion cynllunio ychwanegol na thalu staff asiantaeth, ac er nad oedd y swyddogion yn anghytuno, nodwyd bod yr Awdurdod wedi defnyddio'r ymgynghorydd i ddelio â’r adegau prysuraf yng ngwaith yr adran dros nifer o flynyddoedd. Roedd staffio a strwythur y tîm yn cael eu monitro'n gyson a'r bwriad

oedd hysbysebu am aelod ychwanegol o staff yn ystod yr wythnosau nesaf.

**NODWYD.**

**8. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2020**

Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran – roedd y rhan gyntaf yn seiliedig ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 ac ar gynllunio adferiad, tra bod yr ail ran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith oedd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y tymor hwy a'r effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai'r rhan hon, wrth symud ymlaen, yn rhoi mewnwelediad i effaith COV ID-19 a'r adferiad ar gyflawni prosiectau ar draws yr amcanion llesiant yn y tymor hir. Roedd rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith y gellid eu datblygu yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, roedd nifer o'r gweithgareddau, yn arbennig y rhai sy'n golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, na fydd modd efallai eu cynnal hyd nes y bydd y cyfyngiadau wedi'u codi yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Mewn rhai achosion, byddai hyn yn golygu na fydd gweithgareddau o dan rhai o'r ffrydiau gwaith yn gallu cael eu cyflawni yn ystod 2020/21. Roedd gweithgareddau o dan ffrydiau gwaith yn cael eu hadolygu fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22, ac roedd dal angen ymagwedd hyblyg gan fod capasiti yn golygu y byddai angen gohirio rhai gweithgareddau.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2020 ar gyfer data misol a chwarterol. Roedd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi amlygu nifer o fesurau a chamau gweithredu i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r cyfyngiadau COVID-19 a'r adferiad, gan nodi, yn unol â chynllunio adferiad ac asesiadau risg perthnasol, bod cynnal gwasanaethau wyneb yn wyneb wedi ailgychwyn fel yr oedd y cyfyngiadau yn caniatáu yn ystod Ch2 a Ch3 drwy ganolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu yn yr awyr agored. Roedd y perfformiad yn y gwasanaethau cynllunio wedi cael ei effeithio gan fod y llwyth gwaith wedi pentyrru, ac anawsterau gyda'r systemau technoleg gwybodaeth, a chyfyngiadau ar fynediad i'r swyddfa ac ar ymweliadau safle. Ond roedd ffigurau % Ch3 yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol, yn dangos gwelliant ar ffigurau Ch2. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar waith tuag at amcanion tymor hwy.

Dywedwyd yn y cyfarfod bod system fewnol newydd o reoli perfformiad wedi'i datblygu a'i chyflwyno gan nad oedd cefnogaeth i'r system Ffynnon a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Hefyd cyflwynwyd ffigurau ar y defnydd a wneir o lwybr yr arfordir yn y flwyddyn hyd yn hyn, oedd yn dangos

gostyngiad o’i gymharu â 2019/20 o 181,043 i 145,511. Yn olaf, nodwyd bod y cyfeiriad at fis Hydref ar frig tudalen 76 yn anghywir ac y dylai fod wedi darllen mis Rhagfyr.

Holodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch y camau gweithredu a'r mesurau yn yr adroddiad a atebwyd gan y swyddogion. Byddai rhagor o wybodaeth am y rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan yn cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod, gyda'r Aelodau'n nodi bod hwn yn brosiect sylweddol, a’u bod am ddeall mwy.

Canmolodd yr Aelodau y tîm cynllunio am y gwaith oedd yn cael ei wneud o dan amgylchiadau anodd, ond ailadroddwyd y pwynt a godwyd o dan yr eitem flaenorol bod angen cymorth pellach ar y tîm, o bosibl ar ffurf swyddog ychwanegol, i liniaru’r effeithiau ar y staff ac ar yr ymgeiswyr. Atebodd y Prif Weithredwr bod cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar lawer o waith yr Awdurdod ac nad oedd y targedau wedi’u cyrraedd mewn sawl maes. Roedd cymorth wedi'i roi i'r gwasanaeth cynllunio oedd yn parhau i weithredu, ond nad oedd yn gallu cyflawni yn yr un modd ag y byddai wedi'i wneud o dan amgylchiadau arferol.

O ran yr heriau wrth ymgysylltu â'r ffermwyr neu'r Cynghorau Cymuned er enghraifft o ganlyniad i'r pandemig, nodwyd y gallai galwad ffôn neu ddulliau eraill o gyfathrebu fod yn ddewis arall yn lle cyswllt wyneb yn wyneb. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod, yn yr un modd â sefydliadau eraill, wedi addasu i wahanol ffyrdd o weithio a bod ymgysylltu a thrafodaethau yn digwydd er gwaethaf y cyfyngiadau. Byddai’r swyddogion yn parhau i ymgysylltu ym mha fodd bynnag y gallent wneud hynny yn ddiogel.

**NODWYD**

**9. Diweddariad Iechyd a Diogelwch**

Dywedwyd bod penderfyniad wedi’i wneud yn dilyn y Cyfarfod diwethaf o Iechyd a Diogelwch i gategoreiddio Digwyddiadau a Damweiniau, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod flaenoriaethu ei ymateb wrth fynd i'r afael â’r achosion sydd wrth wraidd y digwyddiadau. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau na damweiniau anafiadau personol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020; fodd bynnag, bu saith digwyddiad adeiladu ac isadeiledd (sbardunau larwm diogelwch) a thri digwyddiad yn ymwneud â difrod bach iawn i gerbydau'r Awdurdod. Roedd y swyddogion o'r farn bod y niferoedd hyn i’w priodoli yn rhannol i’r ffaith bod Canolfannau'r Awdurdod ar gau yn ystod rhan o'r cyfnod adrodd; bod y staff naill ai'n gweithio gartref neu ar ffyrlo; a'r gwyliau estynedig dros gyfnod y Nadolig. Byddai adroddiadau yn y dyfodol yn dechrau dangos cymariaethau misol, wrth i'r Awdurdod gyflwyno ei System Adnoddau

Dynol newydd; byddai hyn yn galluogi paratoi adroddiadau gwell o lawer, fel y gellir monitro tueddiadau a phatrymau.

Aeth yr adroddiad rhagddo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o feysydd prosiect. Roedd Iechyd Caer wedi'i benodi i ddarparu gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol yr Awdurdod yn dilyn rhybudd gan Gyngor Sir Penfro nad oedd yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn mwyach. Roedd Iechyd Caer yn gwmni sydd wedi hen sefydlu ac ar hyn o bryd yn gweithio gyda nifer o sefydliadau sector cyhoeddus ac yn gallu rhoi gwell gwerth am arian drwy ddarparu gwell gwasanaeth a strwythur prisio mwy cystadleuol.

Yn ddiweddar, cyflwynwyd amlinelliad o Raglen Cymorth i Weithwyr yr Awdurdod a ddarparwyd gan Gofal yn Gyntaf i'r Pwyllgor Personél, a chyflwynwyd copi o'r rhaglen i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol er gwybodaeth. Roedd y gwasanaeth hwn yn ddi-dâl i'r holl staff a'u teuluoedd ac yn cynnig llinell ffôn a gwybodaeth a chyngor cyfrinachol 24/7; cwnsela dros y ffôn a wyneb yn wyneb; a phorth ar-lein, sy'n rhoi cyngor ar ffitrwydd a lles ac atebion ymarferol i ystod o broblemau bob dydd. Er mwyn sicrhau bod y staff yn deall y gwasanaeth a gynigir yn iawn, byddai rhaglen o gyfathrebu ac ymgysylltu â staff yn cael ei chynnal yn ystod 2021. Yn dilyn cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau, roedd y Rheolwr AD yn falch o allu dweud y byddai Aelodau'r Awdurdod a'u teuluoedd hefyd yn gymwys i gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ac y byddai manylion yn cael eu dosbarthu iddynt maes o law.

I wella'r cymorth emosiynol a roddir i Swyddogion yr Awdurdod yn ystod Covid-19, atgoffwyd yr Aelodau bod y Cynghorydd Phil Kidney wedi rhoi cynnig gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar yr 2ail o Ragfyr 2020 a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Personnel i gyflwyno 'Gwasanaeth Clust i Wrando' a ddarperir gan Aelodau'r Pwyllgor. Roedd y Cynghorydd Kidney wedi rhoi cyflwyniad i Fforwm Cynrychiolwyr Staff yr Awdurdod yn ddiweddar, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun cyfathrebu ar y modd y byddai'r gwasanaeth hwn yn cyd-fynd â'r mecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Dywedwyd y byddai Hyfforddiant Swyddogion Tân, yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn Diogelwch Tân, yn cael ei ddarparu drwy gynhadledd fideo cyn bo hir i gau cam o weithredu a argymhellwyd gan archwiliad.

Yn olaf, rhoddwyd diweddariad ar drefniadau'r Awdurdod ar staffio mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Roedd morâl yn dal i fod yn bryder parhaus yn sgîl newyddion dyddiol y Llywodraeth ar y pandemig, a rhoddir ystyriaeth i gynnal gweithgareddau i'r staff er mwyn sicrhau bod materion morâl yn parhau yn uchel ar yr agenda.

Gan nodi'r potensial i Gofal yn Gyntaf roi cymorth proffesiynol a hyfforddiant i'r staff ar berfformiad, gofynnodd un Aelod am y mesurau sydd mewn lle ar gyfer datblygu staff. Atebodd y Rheolwr AD bod gan yr Awdurdod Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Thîm Dysgu a Datblygu Cyngor Sir Penfro, a bod rhaglen hyfforddiant yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer staff a rheolwyr, a'r gobaith oedd ei rhoi ar waith yn yr haf pan fyddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosibl. Y bwriad oedd y byddai hyn yn fodel o gyfuno hyfforddiant ar-lein a phersonol, a chynigiodd y Rheolwr AD roi trosolwg o elfennau allweddol yr hyfforddiant hwnnw i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**10. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y prif newidiadau ers yr adroddiad blaenorol mewn tabl cryno yn unol â chais yr Aelodau.

Tynnodd yr Archwilydd Mewnol sylw at y ffaith bod y sgorio risg mewn perthynas â risg 6 a 7 yn fathemategol anghywir, a chytunodd y Rheolwr Cyllid i gywiro'r ffigurau hyn.

Nododd yr Aelodau bod gwall argraffyddol yn risg 48 y fersiwn Saesneg, gyda chollnod yng nghanol gair. Gofynnwyd am ystyried cynnwys risg i amlygu'r effaith ar forâl y staff yn sgîl y cyfnodau clo a'r ansicrwydd am y dyfodol. Atebodd y Rheolwr Cyllid y byddai'n cynnwys hyn ac y gallai dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi staff. Yn olaf, ceisiwyd diweddariad o ran risg 43 – Clefyd Coed Ynn, a dywedwyd mai'r bwriad oedd gwneud cyflwyniad ar hyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**NODWYD.**

**11. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Mai 2021 heb eu diwygio. |